

Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl: Gwasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Llanfrechfa Grange/Uned Asesu a
Thriniaeth /Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 24 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	20
4.	Beth nesaf?	25
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwytio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad monitro dirybudd Deddf Iechyd Meddwl y GIG o Llanfrechfa Grange ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 24 Hydref 2017. Ymwelwyd â'r uned ganlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Asesu a Thriniaeth

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid Deddf Iechyd Meddwl.

Adolygwyd dogfennau ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gennym yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf. Rydym yn ystyried sut y mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â:

- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Archwiliodd AGIC hefyd sut yr oedd y gwasanaeth yn bodloni agweddau ar y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod angen gwneud gwelliannau i fodloni gofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983. Canfuwyd gennym mewn rhai achosion bod y setiau gofynnol o ddogfennau (copïau) Deddf Iechyd Meddwl yn anghyflawn ac nad oedd canlyniadau tribiwnlys yn bresennol yn ffeiliau'r cleifion.

Fe'n hysbyswyd bod ymweliadau eiriolwyr yn cael eu cynnal yn anaml erbyn hyn ac nid oedd gwybodaeth i'w gweld ar yr uned, y mae angen ei harddangos yn eglur.

Mae angen trefnu ffeiliau'r cleifion yn briodol i sicrhau bod darlun cyffredinol o statws ac anghenion cyfredol y claf yn amlwg. Mae angen cymorth a hyfforddiant gan y tîm Deddf Iechyd Meddwl ar gyfer yr holl staff er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei bodloni.

Canfuwyd gennym fod yr amgylchedd wedi cael ei uwchraddio/ailwampio rywfaint, ond argymhellwyd y dylid gwneud gwelliannau ychwanegol i'r dodrefn, y ffitiadau a'r gosodiadau i wneud yr uned yn fwy cyfforddus ac i wella diogelwch.

Trwy drafodaethau gyda'r staff ac arsylwi gofal yn yr uned, daethpwyd i'r casgliad bod gwaith tîm da yn cael ei wneud ac roedd y staff yn ymroddedig i ddarparu safon uchel o ofal cleifion. Roedd gan y staff fynediad at larymau personol ac roeddent yn eu defnyddio. Roeddent hefyd yn sicrhau bod ymwelwyr â'r uned yn ddiogel trwy roi larwm iddynt a/neu eu hebrwng i fannau priodol.

Roedd gweithgareddau yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cynigiwyd dau weithgaredd grŵp yn feunyddiol gan staff yr uned ac mae'r uwch reolwyr yn monitro cyfranogiad i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal
- Gwelwyd gwaith tîm da gennym a'r staff yn trin y cleifion gydag urddas a pharch
- Siaradodd y staff yn ffafriol am y cyfarfodydd fformiwleiddio a gynhelir gan arbenigwyr seicoleg ac ymddygiad oherwydd y cynnwys perthnasol a'r pwyslais ar y grŵp cleifion
- O'r gwaith papur Deddf Iechyd Meddwl i ni ei adolygu, canfuwyd gennym fod ymyriadau dogfennau'r clinigwyr cyfrifol yn gryno, yn fanwl ac yn cyd-fynd â'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwelliannau i'r gwaith papur Deddf Iechyd Meddwl i sicrhau bod dogfennau yn cael eu cwblhau'n llawn a bod ffeiliau yn cael eu trefnu'n briodol fel bod darlun cyffredinol o statws ac anghenion cyfredol y cleifion yn gwbl amlwg
- Mae angen gwelliannau pellach i'r amgylchedd, ac i'r dodrefn, y ffitiadau a'r gosodiadau yn benodol, i wneud yr uned yn fwy cyfforddus ac i wella diogelwch
- Mae angen presenoldeb eiriolaeth gwell ar yr uned ac mae angen arddangos gwybodaeth am y gwasanaeth yn eglur
- Mae angen darparu hyfforddiant a chymorth deddf iechyd meddwl i'r staff, ac ysgrifennydd yr uned yn benodol, i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Llanfrechfa Grange yn darparu gwasanaethau yn ardal Cwmbrân Torfaen ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth yn rhan o Wasanaethau Anabledd Dysgu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Llanfrechfa Grange yw'r unig uned asesu a thriniaeth i bobl ag anableddau dysgu yn y bwrdd iechyd. Mae'r uned yn darparu gofal i gleifion â diagnosis deuol o anableddau dysgu/problemau iechyd meddwl a chleifion ag anabledd dysgu sydd ag ymddygiadau arwyddocaol sy'n herio.

Mae'r lleoliad yn uned rhywiau cymysg â saith gwely. Roedd chwech o bobl yn byw yno ar adeg yr arolygiad.

Roedd y tîm staff yn cynnwys un rheolwr, un dirprwy reolwr, un gweinyddwr a thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Roedd y tîm amlddisgyblaeth yn cynnwys meddyg ymgynghorol dynodedig, therapi galwedigaethol, gwasanaeth lleferydd ac iaith a seicoleg.

Mae Llanfrechfa Grange yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu yn rhan o Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu y bwrdd iechyd.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom y staff yn trin y cleifion gyda pharch a charedigrwydd yn ystod ein harolygiad.

Cynigiwyd gweithgareddau rheolaidd i'r cleifion, gan gynnwys mynediad cymunedol, a gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod ein hymweliad. Roedd system ar waith i fonitro'r mathau o weithgareddau cymdeithasol a hamdden ar gyfer y cleifion, a'u hamlder. Caiff y data eu rhannu gyda'r uwch reolwyr i sicrhau bod gweithgareddau digonol yn cael eu cynnal.

Mae angen gwella'r wybodaeth ar yr uned ar gyfer cleifion ac ymwelwyr. Mae angen diweddarau'r hysbysfwrdd i gleifion yn feunyddiol i adlewyrchu'r dyddiad cywir. Mae angen arddangos gwybodaeth am eiriolaeth, adborth, cwynion a gwybodaeth hanfodol arall yn eglur.

Rydym wedi argymhell y dylid rhoi sylw i'r ymweliadau anaml gan eiriolwyr â'r uned a gwella hyn yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Cynigiwyd cyfle i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr siarad â ni yn ystod yr arolygiad. Dywedodd y rheini i ni siarad â nhw bod gofal a thriniaeth dda yn cael eu darparu ar gyfer y grŵp cleifion.

Cadw'n iach

Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael eu hannog i gynnal ffordd o fyw iach ac roedd rhywfaint o wybodaeth bwyta'n iach wedi ei harddangos nesaf at agorfa weini'r gegin. Darperir brecwast, cinio a phryd nos yn feunyddiol a gall y cleifion wneud eu dewisiadau bwyd eu hunain. Gan nad oedd unrhyw wasanaethau arlwygo ar y safle, roedd dewisiadau bwyd yn cael eu gwneud y

diwrnod cynt ac yn cael eu hanfon i'r tîm arlwygo mewn ysbyty cyfagos a oedd yn cludo'r prydau bwyd i'r uned.

Amlygodd sylwadau gan y staff a'r cleifion y gallai'r bwyd fod yn well. Gwelsom y bwyd a weiniwyd amser cinio yn ystod ein hymweliad gan nodi nad oedd yn edrych yn flasus. Fe'n hysbyswyd bod sylwadau'r cleifion am amrywiaeth ac ansawdd y bwyd wedi cael eu cyfathrebu i'r staff arlwygo yn y gorffennol.

Darparwyd diodydd a byrbrydau gan y staff y tu allan i'r amseroedd bwyd penodedig. Ni ddywedodd yr un o'r cleifion i ni siarad â nhw bod eu bod yn cael unrhyw broblemau yn cael gafael ar y rheini pan roeddent yn dymuno.

Roedd y cleifion yn gallu symud yn rhydd o fewn yr uned ac roedd ganddynt fynediad at eu hystafelloedd gwely a'r lolfa/ystafell fwyta cynllun agored. Roedd yr uned yn ddigon mawr i gefnogi unrhyw glaf sydd angen cymorth i symud.

Roedd gardd gaeedig lle'r oedd mannau decio a glaswellt yn ogystal â gwelyau blodau uchel y cawsom ein hysbysu eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau a therapïau'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod yr amserlen gweithgareddau wythnosol yn cael ei llunio gan yr adran therapi galwedigaethol. Gwelsom weithgareddau yn cael eu cynnal ar yr uned ac fe'n hysbyswyd bod dau weithgaredd yn cael eu trefnu ar gyfer pob shift. Roedd hyn yn cael ei gofnodi ar yr hysbysfwrdd yn y lolfa fel bod y cleifion yn gwybod beth oedd yn digwydd. Roedd y gweithgareddau hefyd yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei bwydo yn ôl wedyn i'r uwch reolwyr fel y gellid rhoi sylw i themâu a phatrymau os na ellir bodloni'r cwota gweithgareddau.

Roedd yr uned yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod a byddai angen i bob ymwelydd ddefnyddio'r system intercom i gael mynediad. Roedd y staff yn sicrhau diogelwch cleifion ac ymwelwyr ymhellach trwy eu hebrwng i'r mannau priodol yn yr uned.

Roedd hysbysfwrdd statws cleifion¹ yn y swyddfa nyrsys yn dangos gwybodaeth gynhwysfawr a chyfrinachol am bob claf a oedd yn derbyn gofal ar

¹ Hysbysfwrdd sy'n cynnig cyfeiriad cyflym i'r staff at wybodaeth hanfodol am y cleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

yr uned. Roedd y wybodaeth wedi ei chuddio pan nad oedd yn cael ei defnyddio. Roedd hyn yn golygu bod y tîm staff yn rhoi pwyslais ar sicrhau cyfrinachedd y cleifion.

Gofal ag urddas

Gwelsom staff ar yr uned yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin cleifion gyda chynhesrwydd a charedigrwydd. Roedd y staff i ni siarad â nhw yn frwdfrydig am sut yr oeddent yn cynorthwyo ac yn gofalu am y cleifion. Cynorthwywyd y cleifion i fod yn annibynnol o ran gofalu am eu hylendid personol, gyda'r staff yn darparu cymorth yn ôl yr angen.

Clywsom staff yn siarad gyda'r cleifion gan ddefnyddio lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Roedd tystiolaeth hefyd fod staff yn annerch y cleifion gan ddefnyddio'r enw o'u dewis.

Roedd panel arsylwi (ffenestr) yn nrws pob ystafell wely a gwelsom fod y rhain ar agor yn bennaf. O'n harchwiliad o un o'r paneli gweld, nid oeddem yn gallu ei weithredu o'r tu mewn i'r ystafell wely. Hysbyswyd y staff am hyn ar y pryd ac argymhellwyd hefyd y dylai paneli arsylwi fod ar gau i sicrhau preifatrwydd a chael eu hagor i arsylwi yn unig, neu mewn ymateb i ddymuniadau'r claf. Mae hyn er mwyn cynorthwyo urddas y cleifion a'u hawl i breifatrwydd.

Gwybodaeth cleifion

Roedd hysbysfwrdd yn arddangos rhywfaint o wybodaeth i'r cleifion wedi ei leoli ger y llofa. Roedd y bwrdd gwyn yn dangos enwau'r staff ar ddyletswydd ac yn rhestru'r gweithgareddau beunyddiol. Fodd bynnag, roedd y dyddiad a oedd wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd ar adeg ein hymweliad yn anghywir ac nid oedd wedi cael ei ddiweddarau erbyn yr adeg i ni adael yr uned. Mae angen diweddarau gwybodaeth i gleifion o'r fath a'i chadw'n gyfredol i gynorthwyo'r cleifion i gyfeirio eu hunain.

Nid oedd unrhyw wybodaeth arall i gleifion wedi ei harddangos o ran eiriolaeth, amseroedd ymweld a chwynion. Dywedodd y staff wrthym fod hon yn cael ei ddarparu wrth dderbyn y claf. Argymhellwyd gennym felly y dylid rhoi ystyriaeth i arddangos gwybodaeth ychwanegol i gleifion ac ymwelwyr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen arddangos gwybodaeth yn eglur i gleifion ac ymwelwyr ac mae angen iddi gynnwys cwynion (Gweithio i Wella) ac eiriolaeth yn ogystal â deunydd perthnasol arall.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd yn amlwg o'n harsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu gyda'r cleifion yn effeithiol. Clywsom y staff yn cynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol ac yn dangos tosturi pan roedd cleifion yn dod yn bryderus.

Gofal amserol

Roedd tîm amlddisgyblaeth ar yr uned a oedd yn cynnwys Meddyg Ymgynghorol, Therapydd Galwedigaethol, Seicolegydd a Therapydd Lleferydd ac iaith. Roedd yr uned yn cynnal rowndiau ward wythnosol a chyfarfodydd amlddisgyblaeth bob pythefnos. Roedd y trefniadau hyn yn helpu i ymsefydlu dull cydweithredol o ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Gofal unigol

Hawliau pobl

Roedd mannau priodol yn yr uned i'r cleifion gyfarfod ag ymwelwyr yn breifat, ynghyd â threfniadau i wneud galwadau ffôn preifat.

Fe'n hysbyswyd nad oedd gwasanaethau eirioli yn ymweld â'r uned yn aml. Argymhellwyd gennym yn y cyfarfod adborth y dylid adolygu hyn, yn enwedig oherwydd bod gan gleifion sy'n cael eu cadw o dan Ddeddf hawl i eiriolwr iechyd meddwl annibynnol er mwyn helpu i gynorthwyo a sicrhau eu bod yn deall goblygiadau'r adran o dan y Ddeddf y maent yn cael eu cadw yn unol â hi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwella mynediad at wasanaethau eirioli i'r uned a pha mor aml y maent yn ymweld i sicrhau bod cymorth digonol ar gyfer y grŵp cleifion yn unol â'r Ddeddf.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw broses ffurfiol ar waith i dderbyn adborth gan y cleifion am y gwasanaeth. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn prosiect i ddatblygu system ffurfiol i gael gafael ar adborth cleifion ar y pryd. Mae hwn yn debygol o fod ar waith ddechrau 2018.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cynorthwyo cleifion sydd eisiau darparu adborth am y gwasanaeth a chynhaliwyd cyfarfodydd cleifion a oedd yn nodi unrhyw faterion o bryder a godwyd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi eu hyfforddi i ddefnyddio proses gwynion y GIG, 'Gweithio i Wella', ond nid oedd unrhyw wybodaeth i'w gweld ar yr uned am y broses hon i gleifion neu ymwelwyr. (Gweler yr argymhelliad o dan Gwybodaeth Cleifion)

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nododd ein hadolygiad o waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella ac argymhellwyd gennym fod dogfennau yn cael eu trefnu'n briodol a'u cwblhau'n llawn, gan nad oedd y dogfennau'n arbennig o drefnus ac roeddent yn anghyflawn mewn rhai achosion. Roedd y staff sy'n gweithio yn yr uned angen cymorth a hyfforddiant gan dîm y Ddeddf Iechyd Meddwl i sicrhau bod safonau yn cael eu bodloni a'u cynnal.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cael ei uwchraddio a byddem yn cynghori y dylai'r gwelliannau ychwanegol yr ydym wedi eu hargymell fod yn rhan o'r cynllun ailwampio. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch ar yr uned. Roedd hyn wedi arwain at welliannau i'r amgylchedd: er enghraifft, roedd ffenestri newydd wedi cael eu gosod a'r gegin wedi cael ei huwchraddio gyda chypyrddau ac arwynebau dur gwrthstaen. Roedd yr ystafelloedd ymolchi a'r ystafelloedd gwely yn cael eu hailwampio ar adeg ein hymweliad.

Roedd hen ffenestri a gwelyau wedi eu taflu wrth y fynedfa pan wnaethom ni gyrraedd. Roedd y rhain yn beryglon llithro a baglu posibl a gofynnwyd i'r staff sicrhau bod yr holl weddillion o'r gwaith ailwampio yn cael ei roi yn y man diogel dynodedig a sefydlwyd. Rhoddodd y staff sylw i hyn yn ystod yr ymweliad a symudwyd yr holl eitemau gan ganiatáu mynediad diogel a chlir i'r uned i'r staff, y cleifion ac ymwelwyr.

Gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud, ac yn cael eu gwneud, i'r uned, ond gwelsom nifer o fannau yr oedd angen rhoi sylw iddynt i wneud yr amgylchedd yn llai gwasgaredig, yn fwy cyfforddus ac i sicrhau diogelwch cleifion. Roedd ystafell fwyta/lolfa cynllun agored. Roedd cefnau uchel, fframiau pren ac ymylon â blaen ar y seddi gosodedig yn y fan hon. Byddai'r math hwn o seddi yn creu anawsterau ar adegau pan fo cleifion angen cymorth ychwanegol neu ataliaeth o ganlyniad i ymddygiad oedd yn herio. Hefyd, roedd y seddi wedi gwisgo a'u staenio. Dywedodd y staff wrthym y byddai'r dodrefn yn cael eu newid a chroesawyd y cam hwn gennym i sicrhau y gellid cael gwared ar y problemau a nodwyd gennym.

Wrth gyrraedd, gwelsom ddrysau tân wedi eu lletemu'n agored mewn mannau i'r staff. Symudwyd y lletemau pan hysbyswyd y staff am hyn. Roedd y drysau yn y lolfa ddydd wedi eu cloi er gwaethaf arwyddion uwch eu pennau yn dynodi eu bod yn allanfeydd tân. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn cael gafael ar yr allwedd o'r swyddfa mewn argyfwng er mwyn agor y drysau. Fodd bynnag, argymhellwyd gennym y dylid adolygu'r weithdrefn hon i sicrhau iechyd a diogelwch pawb yn yr uned.

Gwelsom declyn codi yn yr ystafell ymolchi a oedd wedi ei orchuddio â llwch ac angen ei lanhau'n drylwyr. Gwelsom hefyd fod angen ail-gysylltu llenni'r ystafell ymolchi i fachau a oedd wedi eu gadael ar sil y ffenestr. Roedd hyn gan y byddai'n bosibl eu defnyddio fel gwrthrychau hunan-niweidio. Roedd y bleind ffenestr yn yr ystafell celf a chreffft yn bwynt rhwymyn posibl. Pan dynnwyd sylw'r staff at y mater, cytunwyd ganddynt y byddai'n mynd i'r afael ag ef gan roi sicrwydd nad oedd gan unrhyw glaf fynediad at yr ystafell heb oruchwyliaeth. Gwelsom siswrn wedi ei adael ar sedd yn y lolfa/ystafell fwyta. Gwelsom loriau wedi'u staenio mewn rhai mannau hefyd, a waliau wedi'u difrodi yr oedd angen eu trwsio.

Cynghorwyd gennym felly y dylai'r holl faterion a nodir uchod gael eu hystyried ar y cyd â'r cynlluniau cyfredol ar gyfer gwella. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod amgylchedd yr uned yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion ac yn darparu lleoliad diogel a chyfforddus.

Roedd gan y staff fynediad at larymau personol a gwelsom y staff yn gwisgo'r rhain yn ystod ein hymweliad. Roedd y staff hefyd yn gwneud yn siŵr, pan fo'n berthnasol, bod ymwelwyr yn derbyn larymau personol i sicrhau eu diogelwch. Nid welwyd unrhyw larymau cloch alw yn ystafelloedd gwely'r cleifion ac rydym yn argymhell bod y rhain yn cael eu hystyried ar gyfer pob ystafell wely fel y gall cleifion alw am gymorth os oes angen. Roedd larymau cortyn tynnu yn yr ystafelloedd ymolchi.

Roedd ystafell yn yr uned lle gallai cleifion dderbyn ymwelwyr yn breifat. Roedd digon o le i gymhorthion symud gael eu defnyddio ar yr uned hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Yn ogystal â chynllun cyfredol yr uned ar gyfer ailwampio, mae angen adolygu ac ystyried y meysydd canlynol i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei wella i'w wneud yn addas, yn gyfforddus ac yn ddiogel i'r grŵp cleifion. Yn benodol:

- Mae angen gwella addurniadau'r uned, a'r waliau wedi'u difrodi a'r lloriau wedi'u marcio yn benodol
- Mae angen glanhau'r teclyn codi yn yr ystafell ymolchi yn drylwyr fel y gellir ei ddefnyddio yn ôl y gofyn
- Mae angen disodli'r seddi sefydlog yn y lolfa/ystafell fwyta hefyd fel ei fod yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion
- Mae angen adolygu/disodli'r bleind ffenestr yn yr ystafell celf a chreffft oherwydd y risg rhwymyn posibl
- Mae angen adolygu a gwella'r gweithdrefnau tân trwy sicrhau nad yw drysau tân wedi eu lletemu'n agored a bod y broses o gael gafael ar allwedd i agor allanfeydd tân mewn argyfwng yn briodol ac yn ddiogel.
- Dylai botymau cloch galw nyrsys fod ar gael ym mhob ystafell wely i alw am gymorth pan fo'i angen.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar ddiogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff ar yr uned yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion.

Cadw cofnodion

Roedd y cofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu yn ffeiliau papur. Roedd trefniadau storio diogel ar waith i atal mynediad heb awdurdod at y cofnodion hynny a diffyg cydymffurfiaid o ran cyfrinachedd.

O'r ddau gofnod cleifion y gwnaethom eu hadolygu, canfuwyd gennym ei bod yn anodd eu defnyddio oherwydd trefn wael y nodiadau a oedd wedi'u cynnwys yn y ffeil. Roedd dwy ffeil ar gael ar gyfer pob claf; fodd bynnag, roedd gwybodaeth wedi ei gwasgaru ar draws y ddwy ffeil. Roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd canfod anghenion cyffredinol/cyfredol cleifion heb ymchwilio ymhellach neu drafod gyda'r staff.

Nodwyd y materion hyn yn ystod ein harolygiad blaenorol (Mai 2016). Roedd yn siomedig felly nad oedd gwelliant o'r fath wedi cael ei wneud eto.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen trefnu cofnodion cleifion yn briodol i sicrhau y gellir dod o hyd i wybodaeth yn rhwydd a bod statws cyfreithiol a hanes cyfoes y cleifion yn amlwg.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol dau glaf gennym a chanfuwyd fod y dogfennau deddf iechyd meddwl ar wasgar, gyda chopïau o bapurau deddf iechyd meddwl yn anghyflawn mewn rhai achosion a heb eu cadw mewn trefn gronolegol, (gyda'r cofnod cadw HO14² gofynnol gyntaf).

² Ceir rheoliadau sy'n ymdrin ag arfer pwerau gorfodol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983; mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi'r ffurflenni statudol i'w defnyddio wrth arfer pwerau o dan y Ddeddf. Mae gan bob Ffurflen ei rhif a'i theitl penodol ei hun a rhif cyfeirnod y rheoliad(au) y mae'n gysylltiedig ag ef, felly ffurflen HO14 (rheoliad 4(3)) yw'r cofnod o gadw yn yr ysbyty o dan adrannau 2, 3 a 4. Mae'r ddogfen "Rheoli Cofnodion: Cod Ymarfer y GIG" yn nodi rheolau ac amserlenni penodol ar gyfer darparu a chadw cofnodion gweinyddol y Ddeddf Iechyd Meddwl. Ni fyddai'r awdurdod ar gyfer cadw claf yn bodoli mwyach pe bai'r ffurflenni a ddefnyddiwyd i roi'r awdurdod hwnnw yn cael eu colli, oni bai fod copïau o'r ffurflenni gwreiddiol wedi cael eu gwneud (cyn belled ag y bo'r llofnodwyr yn cymeradwyo'r copïau fel copi gwirioneddol

Yn un ffeil y gwnaethom ei hadolygu, roedd copïau o ddogfennau 2016 wedi cael eu mewnosod rhwng dwy set o ddogfennau 2017. Hefyd, nid oedd copïau o ganlyniadau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn bresennol yn y ffeiliau. Canfuwyd hefyd ffurflen gyfathrebu'r Tîm Amlddisgyblaeth a gwblhawyd ar gyfer claf arall yn yr ail set o gofnodion i ni eu hadolygu.

Dywedodd y staff wrthym fod dau gopi o'r Cod Ymarfer ar gael yn swyddfa'r nyrsys; fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd hyn yn wir. Mae'n hanfodol bod copïau o'r Cod Ymarfer (fersiynau Cymraeg a Saesneg) yn cael eu cadw mewn man priodol i sicrhau hygyrchedd bob amser i gleifion, eu perthnasau a staff yr uned.

Argymhellwyd y dylid adolygu'r ffordd o gadw dogfennau Deddf Iechyd Meddwl ar yr uned a bod safonau yn cael eu pennu ar gyfer cadw dogfennau Deddf Iechyd Meddwl a gwaith papur cysylltiedig yn ffeiliau'r cleifion.

Cynghorir y dylid gwella'r cysylltiadau rhwng tîm yr uned ac Adran y Ddeddf Iechyd Meddwl. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ddarparu hyfforddiant a diweddariadau i ysgrifennydd yr uned ar y Ddeddf Iechyd Meddwl ar lefel sy'n briodol i'r swyddogaeth i hwyluso dealltwriaeth fwy eglur o ddogfennau penodol a digwyddiadau pwysig yn ystod cyfnodau cadw fel ceisiadau SOAD, gwrandawladau Rheolwyr Ysbyty a'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl.

Canfuwyd gennym fod y Clinigydd Cyfrifol wedi cwblhau'r argymhellion meddygol mewn ffordd gryno ond manwl a oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau. Roedd ei resymeg am wneud argymhelliad meddygol wedi ei gofnodi'n arbennig o dda hefyd yng nghofnodion y cleifion.

o'r ffurflen wreiddiol). Dylid atodi copïau papur o ffurflenni a gedwir mewn cofnodion papur yn ddiogel felly. Argymhellir y dylent adlewyrchu'n rhesymegol y camau a gymerwyd yn ystod y broses asesu gyda Ffurflen 14, y cofnod cadw yn yr ysbyty o dan adrannau 2, 3 a 4 gyntaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r drefn o ffeilio dogfennau Deddf Iechyd Meddwl i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n briodol ac yn benodol i'r claf perthnasol.

Mae angen i gopïau o'r Cod Ymarfer fod ar gael i gleifion, perthnasau a staff ar yr uned yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae angen gwell cysylltiadau rhwng tîm y ddeddf iechyd meddwl a staff yr uned i sicrhau y darperir cymorth a hyfforddiant i gadarnhau bod cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yn y Ddeddf.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Ochr yn ochr â'n hadolygiad o ddogfennau cadw statudol, ystyriwyd cymhwysiad Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 gennym. Adolygwyd dau gynllun gofal a thriniaeth gennym a chanfuwyd tystiolaeth fod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion a, phan fo'n briodol, roedd aelodau teulu yn cael eu cynnwys mewn trefniadau cynllunio gofal.

Roedd tystiolaeth glir yn y cynlluniau gofal a thriniaeth y gwnaethom eu hadolygu bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i'r cleifion, ond dywedodd y staff wrthym nad oedd eu hymweliadau â'r uned yn rheolaidd ac argymhellwyd gennym y dylid adolygu hyn.

I ategu cynlluniau gofal y cleifion, roedd amrywiaeth helaeth o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r ddarpariaeth o ofal cleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Canfuwyd gennym fod y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Trwy drafodaethau gyda'r staff ac arsylwadau ar yr uned, daethpwyd i'r casgliad bod gwaith tîm da yn cael ei wneud. Roedd y staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel a dywedasant eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch reolwyr.

Roedd prosesau ar waith i'r staff dderbyn gwerthusiad blynyddol a chwblhau hyfforddiant gorfodol. Gwelsom, o'r matrices hyfforddiant, nad oedd rhywfaint o hyfforddiant yn gyfredol mwyach ac argymhellwyd bod hwn yn cael ei ddiweddarau cyn gynted â phosibl. Gallai mynediad at rywfaint o hyfforddiant ystafell ddosbarth fod yn anodd oherwydd argaeledd ac roedd hyn yn arwain at hyfforddiant nad oedd yn gyfredol i rai staff, maes yr ydym yn argymhell sy'n cael ei adolygu a'i ddatrys.

Nodwyd angen gennym i'r staff dderbyn hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl, gan ddarparu cymorth a hyfforddiant penodol i'r gweinyddwr ar yr uned. Bydd hyn yn sicrhau bod gofynion cyfreithiol y Ddeddf yn cael eu bodloni.

Roedd cyfarfodydd tîm a fformiwleiddio rheolaidd ar waith ar gyfer y staff. Gwnaed sylwadau ffafriol am y rhain oherwydd y cynnwys perthnasol i'r grŵp cleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer adrodd digwyddiadau ac roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu cyfathrebu i'r holl staff fel ffordd o wella gofal cleifion.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod yr uned yn canolbwyntio ar wella ei gwasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn, yn rhannol, trwy raglen barhaus o archwiliadau, y mae ei chanlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r uwch reolwyr fel y gellir monitro canlyniadau a thrafod canlyniadau clinigol o ran y ddarpariaeth o ofal cleifion.

Roedd gan yr uned reolwr a dirprwy a oedd yn cael eu cynorthwyo gan dîm ward ac amlddisgyblaeth ymroddedig. Ar adeg ein hymweliad, cawsom gyfle i gyfarfod â rheolwr newydd yr uned a oedd ar fin cymryd yr awenau gan y rheolwr cyfredol.

Canfuwyd gennym fod y staff wedi ymrwymo i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel a dywedodd y staff bod gwaith tîm ar yr uned yn dda iawn. Dywedodd staff a oedd yn gweithio yn yr uned eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch reolwyr gan ddweud eu bod yn hawdd mynd atynt. Dywedasant wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd yn gadarnhaol bod yr holl staff yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Arsylwyd gennym, a dywedodd y staff wrthym, fod yr uned wedi ffurfio timau a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gwelsom unigolion brwdfrydig yn darparu gofal penodol i'r cleifion. Ar adeg ein hymweliad, dim ond nifer fach o swyddi gwag oedd ar y ward ac yr oedd proses recriwtio ar waith ar eu cyfer ac roedd astudiaeth aciwtedd cleifion³ diweddar wedi sicrhau bod staff digonol ar shifftiau.

³ Cysyniad y cyfeirir ato'n aml gan ddarparwyr gofal a'r llenyddiaeth gwyddor iechyd yw aciwtedd cleifion, ond heb fod yn benodol neu'n gyson o ran diffiniad neu fesuriad. Mae aciwtedd wedi dod yn gyfeiriad ar gyfer amcangyfrif dyraniadau staffio nyrsys a phenderfyniadau cyllideb o ran dwysedd y gofal sy'n ofynnol ar gyfer claf.

Roedd yr uned yn dibynnu ar gymorth gan aelodau staff cronfa yn ôl y gofyn a dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio sicrhau parhad er budd y grŵp cleifion. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd nad oedd rhai aelodau staff cronfa wedi derbyn hyfforddiant mewn rhai meysydd allweddol, a rheoli ymddygiad cadarnhaol yn benodol. Roedd hyn yn golygu pe bai angen defnyddio math o ataliaeth, na fyddai unrhyw un heb hyfforddiant rheoli ymddygiad cadarnhaol yn cymryd rhan. Mae'r cam hwn yn gywir, ond mae'n angenrheidiol bod yr holl staff sy'n gweithio ar yr uned yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n benodol ar gyfer y grŵp cleifion i sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynnal bob amser.

Roedd cyfarfodydd staff a fformiwleiddio⁴ rheolaidd yn cael eu cynnal. Cynhaliwyd y cyfarfodydd fformiwleiddio gan arbenigwyr seicoleg ac ymddygiad y siaradodd y staff amdanynt yn ffafriol oherwydd y cynnwys perthnasol a phwyslais at y grŵp cleifion.

Fe wnaethom adolygu'r rhaglen hyfforddiant staff gorfodol. Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant ar-lein gan ddefnyddio'r system Cofnod Staff Electronig. Dywedodd y staff wrthym nad oedd digon o gyfrifiaduron ar yr uned i gwblhau eu hyfforddiant ar-lein. Cyflwynwyd matrices hyfforddiant yn cynnig trosolwg o gydymffurfiaid y staff gan amlygu nifer o feysydd lle nad oedd hyfforddiant yn gyfredol. Rydym yn argymhell felly bod hyfforddiant staff yn cael ei adolygu gan ddiweddarau meysydd y nodir nad ydynt yn gyfredol a bod angen eu diweddarau cyn gynted â phosibl. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y staff yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ofalu am y grŵp cleifion.

Roedd yn amlwg na allai'r system Cofnod Staff Electronig gynnig trosolwg o'r holl hyfforddiant staff a'u lefel cydymffurfiaid. Caiff taflenni ychwanegol (fel y matrices hyfforddiant) eu llunio a'u defnyddio gan y staff i ddarparu'r wybodaeth hon ac rydym yn argymhell bod adolygiad o'r system yn cael ei gynnal fel y gall gynhyrchu'r wybodaeth sydd ei hangen ar reolwyr ac osgoi dyblygu gwaith.

Dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn cael unrhyw broblemau yn cael mynediad at hyfforddiant allanol ychwanegol a pherthnasol gyda chymeradwyaeth rheolwr llinell. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod diffyg hyfforddiant ystafell ddosbarth yn y Bwrdd Iechyd wedi arwain at fethu â

⁴ Defnyddir fformiwleiddiadau i gyfathrebu hypothesis ac i ddarparu fframwaith ar gyfer datblygu'r dull triniaeth mwyaf addas.

diweddarau/adnewyddu hyfforddiant. Rydym yn argymhell bod hyn yn cael ei adolygu i sicrhau bod gan y staff ddigon o amser a chyfleoedd i gwblhau hyfforddiant ystafell ddosbarth angenrheidiol.

Amlygodd trafodaethau gyda'r staff nad oedd hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl yn cael ei ddarparu ond y byddai'n cael ei groesawu. Mae angen hyfforddiant a chymorth penodol ar frys i'r staff gweinyddol i sicrhau bod yr agweddau cyfreithiol ar y ddeddf yn cael eu cwblhau fel sy'n ofynnol. Rydym yn argymhell felly bod hyn yn cael ei drefnu a'i ddarparu cyn gynted â phosibl.

Roedd y staff yn derbyn gwerthusiadau blynyddol a gofnodwyd ac roedd dyddiadau cwblhau yn cael eu cofnodi ar y system Cofnod Staff Electronig. Roedd rhaglen i'r staff dderbyn goruchwyliaeth gan reolwyr ar waith. Adolygwyd y matrices ar gyfer y broses hon gennym, a ddiweddarwyd diwethaf ym mis Awst 2017, a chanfuwyd mai prin iawn oedd y staff a oedd yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac nid oedd rhai aelodau staff wedi cael sesiwn ers mis Chwefror 2017. Roedd hyn yn hwy na'r amserlen chwech i wyth wythnos sefydledig rhwng sesiynau goruchwyllo. Rhoddwyd rhywfaint o sicrwydd i ni yn y cyfarfod adborth y bydd rheolwr newydd yr uned yn adolygu hyn ac yn sicrhau bod gan y staff ddulliau cymorth digonol ar waith.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y weithdrefn ar gyfer adrodd digwyddiadau ac roedd dealltwriaeth a gwybodaeth glir yn cael eu darparu ganddynt am y broses hon. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar y system Datix⁵ ac roedd gwersi a ddysgwyd yn cael eu trafod gyda thîm y ward yn ôl y gofyn, fel y nodwyd gan y staff.

⁵ System adrodd digwyddiadau a rheoli risg yw Datix, i hysbysu am ddigwyddiadau clinigol a'u holrhain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen cynnal adolygiad o hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod yr holl staff yn gyfredol, gan gynnwys staff cronfa.

Mae angen cynnal adolygiad o'r system Cofnod Staff Electronig fel y gall rheolwyr gael trosolwg o'r holl ddata hyfforddiant staff a chydymffurfiaid heb fod angen cael mynediad at bob cofnod unigol a/neu ddatblygu adroddiadau ychwanegol.

Mae angen hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl ar gyfer yr holl staff a dylid rhoi hyfforddiant a chymorth penodol ar waith ar gyfer gweinyddwr yr uned i sicrhau bod gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu dilyn.

Mae angen cynnal adolygiad o argaeledd hyfforddiant ystafell dosbarth i sicrhau bod digon o gyfleoedd a lleoedd i'r staff fynychu.

Mae angen adolygu a gwella'r rhaglen o oruchwyliaeth gan reolwyr fel bod staff yn derbyn sesiwn sy'n cyd-fynd ag amserlenni'r uned ar gyfer y broses hon.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG yn ystyried sut y mae gwasanaethau:

- Yn cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)
- Yn bodloni agweddau ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl GIG.

Mae rhagor o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar gael ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Llanfrechfa Grange

Ward(iau): Uned Asesu a Thriniaeth

Dyddiad yr arolygiad: 24 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu am y camau brys y maent yn eu cymryd.

Gwelliant uniongyrchol sydd ei angen	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Llanfrechfa Grange
Ward(iau): Uned Asesu a Thriniaeth
Dyddiad yr arolygiad: 24 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen arddangos gwybodaeth yn glir i gleifion ac ymwelwyr ac mae angen iddi gynnwys cwynion (Gweithio i Wella) ac eiriolaeth yn ogystal â deunydd perthnasol arall.	4.2 Gwybodaeth Cleifion	Bydd yr hysbysfwrdd cleifion yn cael ei ddiweddarau fel mater o drefn gan y Shifft Nos ar gyfer y diwrnod canlynol. Bydd dyddiadur yn cael ei gadw o'r cam gweithredu hwn i sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa i wneud hyn.	Rheolwr y Ward	31 Ion 2018
		Prynwyd dau hysbysfwrdd arddangos i ddisodli'r rheini a dynnwyd oddi ar y wal yn flaenorol gan ddefnyddiwr gwasanaeth. Bydd yr	Rheolwr y Ward	31 Ion 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hysbysfyrddau hyn yn cael eu gosod a bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei darparu gan gynnwys; ffotograffau ac enwau'r staff, eiriolaeth a gwybodaeth am gwynion. Prynwyd dau fwrdd gwyn hefyd i'w defnyddio yn y fan hon hefyd a byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni' a hysbysfwrdd graffiti ar gyfer adborth defnyddwyr gwasanaeth. Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio i lenwi'r hysbysfwrdd dywedoch chi, gwnaethom ni fel bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gweld unrhyw welliannau a wnaed o ganlyniad i'w hawgrymiadau.	Rheolwr y Ward	31 Ion 2018
Mae angen gwella mynediad at wasanaethau eirioli i'r uned a pha mor aml y maent yn ymweld i sicrhau bod cymorth digonol ar gyfer y grŵp cleifion yn unol â'r Ddeddf.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed 6.1 Cynllunio	Cyfarfod gyda'r gwasanaeth eirioli i gael ei drefnu a'r gwasanaeth cyfredol i gael ei adolygu i sicrhau cymorth priodol i'r uned.	Nyrs Arweiniol	31 Ion 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gofal i hybu annibyniaeth 6.2 Hawliau pobl Cod Ymarfer Cymru, Diwygiwyd 2016 - pennod 6			
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Yn ogystal â chynllun cyfredol yr uned ar gyfer ailwampio, mae angen adolygu ac ystyried y meysydd canlynol i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei wella i'w wneud yn addas, yn gyfforddus ac yn ddiogel i'r grŵp cleifion. Yn benodol: ☐ Mae angen gwella addurniadau'r uned, a'r waliau wedi'u difrodi a'r lloriau wedi'u marcio yn benodol ☐ Mae angen glanhau'r teclyn codi yn yr ystafell ymolchi yn drylwyr fel y gellir ei	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Disgwylir i'r uned ymgymryd â chynllun ailwampio ar ôl dyrannu cyllid cyfalaf. Bydd yr holl elfennau a amlygir yn y cynllun gwella hwn yn cael sylw, sef: - Addurno holl waliau a nenfydau'r uned - Disodli'r holl loriau - Bydd seddi sefydlog yn y lolfa yn cael eu tynnu oddi yno - Mae'r teclyn codi yn yr ystafell ymolchi wedi cael ei lanhau ac mae hyn	Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Arbenigol	Gorffennaf 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddefnyddio yn ôl y gofyn ☐ Mae angen disodli'r seddi sefydlog yn y lolfa/ystafell fwyta hefyd fel ei fod yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion ☐ Mae angen adolygu/disodli'r bleind ffenestr yn yr ystafell celf a chreffft oherwydd y risg rhwymyn posibl ☐ Mae angen adolygu a gwella gweithdrefnau tân trwy sicrhau nad yw drysau tân wedi eu lletemu'n agored a bod y broses o gael gafael ar allweddi i agor allanfeydd tân mewn argyfwng yn briodol ac yn ddiogel. Dylai botymau cloch galw nyrsys fod ar gael ym mhob ystafell wely i alw am gymorth pan fo'i angen.		wedi cael ei ychwanegu at amserlen lanhau'r ward Cafwyd gwared ar y bleind ffenestr. Cymerwyd camau ar unwaith i sicrhau nad yw drysau tân wedi'u lletemu'n agored a bod yr allanfeydd tân yn hygyrch. Gweithdrefnau tân i gael eu hadolygu ymhellach yn unol â'r argymhellion. Mae angen adolygu botymau galw nyrsys i sicrhau bod y rhain ar gael pan fo'u hangen i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth unigol a deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol.	Rheolwr y Ward Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Arbenigol Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Arbenigol / Rheolwr y Ward Person Cymwys Uned Asesu a Thrin Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Arbenigol	Cwblhawyd Cwblhawyd Ar unwaith Cwblhawyd 31 Ion 2018 31 Ion 2018
Mae angen trefnu cofnodion cleifion yn briodol i sicrhau y gellir dod o hyd i wybodaeth yn rhwydd a bod statws cyfreithiol a hanes cyfoes y cleifion	3.5 Cadw cofnodion	Cynhaliwyd adolygiad o gofnodion cleifion i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei threfnu mewn ffyrdd y gellir cael	Gweinyddwr y Ward / Dirprwy	Ar unwaith Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yn amlwg.	Cod Ymarfer Cymru, Diwygiwyd 2016 - pennod 35	gafael arni'n rhwydd. Atgoffwyd y staff am hyn. Bydd yr holl gofnodion cleifion mewnol yn cael eu trefnu gyda thudalen gynnwys a rhanwyr nawr. Bydd gwybodaeth sy'n berthnasol i ofal cyfredol yn cael ei chynnwys yn y ffeil a'i storio mewn trefn gronolegol yn ei hadran briodol. Atebolrwydd am gofnodion iechyd unigol i gael ei neilltuo i'r cydgysylltydd gofal cyswllt ar y ward gyda chyfrifoldeb cyffredinol yn cael ei neilltuo i Ddirprwy Reolwr y Ward. Bydd Dirprwy Reolwr y Ward yn adolygu ffeiliau yn wythnosol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r broses ffeilio ac yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ar gyfer anghenion gofal cyfredol.	Reolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward Dirprwy Reolwr y Ward	31 Ion 2018 31 Ion 2018 31 Ion 2018
Mae angen adolygu'r drefn o ffeilio dogfennau Deddf Iechyd Meddwl i sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n briodol ac yn benodol i'r claf perthnasol.	3.5 Cadw cofnodion Cod Ymarfer Cymru, Diwygiwyd	Dogfennau Deddf Iechyd Meddwl i gael eu rhannu'n Ffurflenni Deddf Iechyd Meddwl, Adroddiadau Deddf Iechyd Meddwl ac Absenoldeb Adran 17.	Gweinyddwr y Ward / Dirprwy Reolwr y Ward	31 Ion 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	2016 - pennod 35	Bydd y dogfennau hyn yn cael eu storio mewn trefn gronolegol ac yn cael eu gwirio'n wythnosol i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyflawn.	Dirprwy Reolwr y Ward	31 Ion 2018
Mae angen i gopïau o'r Cod Ymarfer fod ar gael i gleifion, perthnasau a staff ar yr uned yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Cod Ymarfer Cymru, Diwygiwyd 2016 - pennod 4	Dyrannwyd y cod ymarfer ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 2007 i'r uned ac mae ar gael yn swyddfa'r ward.	Pennaeth y Gwasanaethau Arbenigol	25 Hyd 2017 Cwblhawyd
Mae angen gwell cysylltiadau rhwng tîm y ddeddf iechyd meddwl a staff yr uned i sicrhau y darperir cymorth a hyfforddiant i gadarnhau bod cydymffurfiaid â deddfwriaeth yn y Ddeddf.	7.1 Gweithlu Cod Ymarfer Cymru, Diwygiwyd 2016 - pennod 1	Bydd adolygiad o'r trefniadau cyfredol rhwng yr Adran Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Uned Asesu a Thrin yn cael ei gynnal. Bydd hyfforddiant, archwilio ffeiliau a dogfennau a chreu gweinyddwr cyswllt yn rhan o'r adolygiad.	Pennaeth y Cynorthwyol y Gwasanaethau Arbenigol / Arweinydd QPS Is-adrannol	31 Ion 2018
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae angen cynnal adolygiad o hyfforddiant gorfodol i sicrhau bod yr holl staff yn gyfredol, gan gynnwys staff cronfa.	7.1 Gweithlu	Bydd yr holl hyfforddiant staff statudol a gorfodol yn cael ei adolygu ar gyfer staff ward a bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio	Rheolwr y Ward	31 Ion 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yn cael sylw. Bydd yr holl hyfforddiant staff statudol a gorfodol yn cael ei adolygu ar gyfer staff cronfa a bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn cael sylw.	Cronfa Adnoddau	31 Ion 2018
Mae angen cynnal adolygiad o'r system Cofnod Staff Electronig fel y gall rheolwyr gael trosolwg o'r holl ddata hyfforddiant staff a chydymffurfiaid heb fod angen cael mynediad at bob cofnod unigol a/neu ddatblygu adroddiadau ychwanegol.	7.1 Gweithlu	Y system Cofnod Staff Electronig i gael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn nodi'r hyfforddiant a gyflawnwyd gan staff yn yr Uned Asesu a Thriniaeth.	Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Arbenigol	31 Ion 2018
Mae angen hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl ar gyfer yr holl staff a dylid rhoi hyfforddiant a chymorth penodol ar waith ar gyfer gweinyddwr yr uned i sicrhau bod gofynion cyfreithiol y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu dilyn.	7.1 Gweithlu	Hyfforddiant Deddf Iechyd Meddwl i gael ei adolygu i sicrhau y darperir gwybodaeth berthnasol sy'n berthnasol i'w swyddi i'r holl staff.	Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Arbenigol	31 Ion 2018
Mae angen cynnal adolygiad o argaeledd hyfforddiant ystafell dosbarth i sicrhau bod digon	7.1 Gweithlu	Pan fydd angen hyfforddiant ystafell ddosbarth, bydd ei argaeledd yn cael ei	Pennaeth Cynorthwyol y	31 Ion 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
o gyfleoedd a lleoedd i'r staff fynychu.		adolygu i sicrhau nad yw hwn yn broblem i staff gael mynediad ato yn brydlon.	Gwasanaethau Arbenigol	
Mae angen adolygu a gwella'r rhaglen o oruchwyliaeth gan reolwyr fel bod staff yn derbyn sesiwn sy'n cyd-fynd ag amserlenni'r uned ar gyfer y broses hon.	7.1 Gweithlu	Mae'r strwythur Goruchwyllo gan Reolwyr wedi cael ei ddiwygio a'i wneud ar gael i'r staff. Bydd rhagor o waith ar sicrhau y gall staff gael mynediad at oruchwyliaeth bob 8 wythnos o leiaf yn cael ei wneud a'i gynnwys yn y cynllun shifftiau ar gyfer pob achlysur.	Rheolwr y Ward	31 Ion 2018

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Christopher Jones

Swydd: Pennaeth Cynorthwyol y Gwasanaethau Arbenigol

Dyddiad: 21 Rhagfyr 2017